PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 | Cyfrol 156 | Rhif 6 | Chwefror 9, 2023 | 50c.



## PRIS Y RHYFEL YN WCRÁIN

**Flwyddyn yn ôl, prin y byddai neb wedi rhagweld rhyfel ffyrnig rhwng dwy wlad yn Ewrop. Ond ar 24 Chwefror, fe wnaeth Rwsia ymosod ar Wcráin. Prin fod Vladimir Putin wedi rhagweld ychwaith y byddai Wcráin yn llwyddo i wrthsefyll ymosodiad ei luoedd arfog mewn modd mor gadarn.**

Erbyn hyn, mae tua chwarter miliwn o filwyr a phobl gyffredin wedi cael eu lladd neu eu clwyfo, heb unrhyw obaith am ddiwedd i'r ymladd. (Isod: un o danciau Rwsia'n chwilfriw.)



### Cyfraniad Prydain

Yn 2022 fe wnaeth llywodraeth Prydain gyfrannu gwerth £2.3 biliwn o offer milwrol i Wcrain, gan gynnwys cannoedd o gerbydau rhyfel, gynnau trwm, taflegrau i ddinistrio tanciau a llawer mwy. Mae addewid i anfon gwerth £2.3 biliwn ymhellach eleni, gan gynnwys nifer o danciau.

Ond mae'r rhyfel yn costio llawer mwy i bobl Prydain, gan fod y sancsiynau yn erbyn Rwsia wedi achosi cynnydd aruthrol ym mhris tanwydd fel nwy ac olew i wresogi ein cartrefi – cost y bydd llawer yn methu ei fforddio y gaeaf hwn. Dyna sydd hefyd wedi cyfrannu at y chwyddiant sydd, yn ei dro, wedi arwain at y streiciau presennol mewn llu o sectorau – gan gynnwys ysgolion ac ysbytai.

## MWY O WARIO MAWR AR Y LLUOEDD ARFOG

**'Nôl ym mis Medi 2022, ar y prynhawn y bu'r Frenhines farw, fe wnaeth Annibynwyr Gorllewin Caerfyrddin, mewn cwrdd chwarter yng nghapel Ffynnonbedr ger Meidrim, alw ar lywodraeth y Deyrnas Unedig i ailystyried ei bwriad i wario biliynau lawer o bunnau'n fwy ar amddiffyn dros yr wyth mlynedd nesa. Datganwyd fod gwario ar arfau rhyfel yn groes i efengyl Iesu Grist, Tywysog Tangnefedd. Cawn wybod ymhen mis os yw'r llywodraeth am gadw at ei fwriad.**

### Symiau anferthol

Mae Prydain eisoes yn gwario 2.2% o Gynnyrch Domestig Gros (GDP) ar amddiffyn, sef £47biliwn eleni. Mae hyn yn uwch na disgwyliad NATO o 2.1%. Ond mae disgwyl i'r Canghellor Jeremy Hunt ddatgan cynnydd sylweddol pan gyhoeddir canlyniad yr Adolygiad Amddiffyn ar 7 Mawrth. Ofnir y bydd e'n codi'r canran o GDP sy'n cael ei wario ar y lluoedd arfog i 3%. Byddai hynny'n golygu gwario £157 biliwn yn ychwanegol rhwng nawr a 2030 – y cynnydd mwyaf mewn gwariant ar amddiffyn ers y 1950au.

### O ble ddaw'r arian?

Pe bai'r cynllun yn cael ei ariannu o drethiant, byddai angen cynnydd o 5c yn y bunt ar dreth incwm erbyn diwedd y ddegawd, neu godi'r gyfradd TAW presennol o 20% i 25%. Fel arall, byddai angen toriadau llym mewn gwariant ar wasanaethau cyhoeddus a/neu ymrwymiadau gwariant rhyngwladol. Mae Llywodraeth y DU eisoes wedi torri Cymorth Dramor o 0.7% o GDP i 0.5% er mwyn ariannu'r gyllideb amddiffyn – cam a gafodd effaith ddinistriol ar waith dyngarol yn y gwledydd mwyaf tlawd yn y byd lle mae pobl yn marw o newyn wrth y miloedd.

### Gwario anghyfiawn

Dim ond Unol Daleithiau America, Tsieina ac India sy'n gwario mwy na Phrydain ar amddiffyn. Byddai'r fath gynnydd mewn gwariant yn creu mwy fyth o elw i'r cwmnïau hynny sy'n cynhyrchu arfau rhyfel. Ond sut yn y byd allwn ni fforddio cyfrannu degau o biliynau o bunnau'n ychwanegol trwy ein trethi tuag at ehangu'r lluoedd arfog, pan fod miliynau o deuluoedd yn wynebu caledi gwirioneddol oherwydd y cynnydd mewn costau byw? Ar y naill law mae llywodraeth y Deyrnas Unedig yn ystyried gwario tua £20 biliwn yn fwy ar amddiffyn bob blwyddyn, ac ar y llaw arall maent yn gwrthod rhoi codiadau cyflog mwy teilwng i ystod o weithwyr mewn gwasanaethau hanfodol, fel nyrsys, athrawon, gyrwyr ambiwlans ac ati. Fel Cristnogion, oni ddylem ni wrthwynebu'r fath anghyfiawnder?


**Alun Lenny**

# Y weinidogaeth ddoe a heddiw (2)

*Dyma ail gyfraniad Geraint Tudur yn ei gyfres am y weinidogaeth.*

Trafod yr oeddem Adroddiad Comisiwn a godwyd gan Gyngor yr Undeb ym 1953 ‘i chwilio i sefyllfa y Weinidogaeth Heddiw’. Fe’i cyhoeddwyd ym 1958.

Yn yr adran gyntaf, gwelwn drafod ystadegau. Yn ôl ym 1935, meddir, yr oedd 135,034 o Annibynwyr Cymraeg. Erbyn 1958, yr oedd y rhif hwnnw wedi gostwng i 112,896. Cymharer hynny â’r cyfanswm diweddaraf a gyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr yn ei lawlyfr, *Tanysgrifiadau a Chyfrifon* (y Llyfr Gwyn), 2021, sef 16,307.




Eto, yn ôl ym 1935 yr oedd 381 o weinidogion ‘yn y maes’ a 134 heb ofal eglwys. Dyna gyfanswm o 515. Erbyn 1958, 310 oedd ‘yn y maes’, a 107 heb ofal eglwys. Cyfanswm o 417. Ym mis Mai 2022, dywedir mai 48 o weinidogion oedd ‘yn y maes’ ymhlith yr Annibynwyr Cymraeg, ac ym Mlwyddiadur 2022 gwelir enwau 68 o weinidogion ‘wedi ymddeol’. Cyfanswm, 116.

Gwelwn, felly, nid yn unig fod niferoedd y ‘gweithlu’ Annibynnol wedi gostwng yn sylweddol ond fod maes eu gofal hefyd wedi crebachu’n enbyd. Ar y llaw arall, gellir dweud, tra bod y gwersyll Annibynnol yn ddim ond cysgod o’r hyn oedd ym 1935 neu yn 1958, mae’r maes cenhadol wedi tyfu’n sylweddol ac yn aeddfed i’w gynaeafu.

## Seiliau hanesyddol

Pwnc ail adran yr adroddiad yw seiliau hanesyddol gweinidogaeth yr Annibynwyr. Nodir yn gyntaf, fod ein dealltwriaeth o’r eglwys a’r weinidogaeth yn deillio o’r Efengyl. ‘Cymdeithas o ddisgyblion Crist a alwyd ynghyd yn rhwymau’r Efengyl yw’r eglwys; yr eglwys gynulledig.’ Perthyn y weinidogaeth i’r eglwys i gyd, ond amrywiol yw doniau’r Ysbryd, a doniwyd rhai i waith arbennig o fewn yr eglwys. Dyna, meddir, a welwn yn y Testament Newydd.

Yn raddol, tanseiliwyd y drefn hon yn ystod y canrifoedd cynnar, a daeth gweinidogaeth offeiriadol i gymryd lle hen weinidogaeth y doniau ysbrydol. Nid tan y Diwygiad Protestannaidd y sefydlwyd egwyddor ‘offeiriadaeth yr *holl* saint’, ac yn dilyn hynny, gwelwyd cynnull eglwysi gyda chyfamod yn clymu’r aelodau â’i gilydd, ac adferiad y syniad o weinidogaeth y doniau.

Yr oedd y pwyslais ar ryddid yr Ysbryd, a’r weinidogaeth yn cael ei darparu, dan law Duw, trwy fugeiliaid, henuriaid athrawiaethol a llywodraethol, a diaconiaid. Ymhen amser, diflannodd yr henadur, a rhannwyd y gwaith rhwng y gweinidog (y bugail) a’r diaconiaid.

I’r eglwys leol y perthynai’r weinidogaeth er bod rhyddid i weinidogion bregethu a gweinyddu’r sacramentau mewn eglwysi eraill, trwy wahoddiad. Yn yr ail ganrif ar bymtheg, gallai’r eglwys leol fod yn eglwys sirol, sef un eglwys yn cyfarfod mewn amryw fannau gwahanol, ond buan y trodd y canghennau hynny’n eglwysi Annibynnol eu hunain, a chollwyd yr eglwys sirol yn llwyr.

## Cyrddau chwarter

Wrth i’r ddeunawfed ganrif dynnu tua’i therfyn, arferai gweinidogion yr Annibynwyr gyfarfod â’i gilydd mewn Cyfarfodydd Chwarterol i ordeinio newydd-ddyfodiaid ac i gynnal disgyblaeth o fewn y rhengoedd. Bu cryn gecru ynglŷn â dirwyn y drefn arbennig hon i ben a phasio’r cyfrifoldeb am ordeinio a sefydlu ymlaen i’r eglwys leol. Yr ail safbwynt a orfu yn y diwedd, a hyd heddiw ystyrir ordeinio heb fod gofal eglwys yn sefyllfa afreolaidd y dylid, hyd y gellir, ei hosgoi.

Yn olaf, ystyrid mai anrhydeddus oedd i weinidog gael ei gynnal (neu, erbyn hyn, ei chynnal) gan y bobl yr oedd yn eu gwasanaethu. Er hynny, nid peth anghyffredin oedd gweld gweinidog yn ymarfer crefft neu’n cyflawni gwaith arall i’w gynnal ei hunan.

Dyna gefndir y weinidogaeth yr ydym ni fel Annibynwyr wedi ei harddel hyd heddiw. I’r man hwn, beth bynnag ein niferoedd, yr ydym wedi dod. Gallwn ddweud nad oes fawr ddim wedi newid er pan ysgrifennwyd y disgrifiad hwn o’r gwaith ym 1958.

Y tro nesaf, felly, cawn weld pa sylwadau oedd gan aelodau’r comisiwn i’w gwneud am y sefyllfa, ac am y rhagolygon, yn y dyddiau hynny. Cawn gip hefyd ar awgrym neu ddau a wnaethpwyd ganddynt er mwyn i’r eglwysi a’u gweinidogion fedru ymateb i sialens eu cyfnod.

**Geraint Tudur, Bangor**



## PROSIECT DENMAN 2023

Eleni gwahoddir ysgolion Sul i ddefnyddio’u dychymyg a’u doniau creadigol i greu podlediad / hysbyseb / fideo / unrhyw beth cyfrwng digidol byr (hyd at 5 munud o hyd) ar y thema:

### Ein Hysgol Sul: ‘Dweud am Iesu.’

Yr ydym ni bellach wedi symud at ailgydio yn ein cyrddau a’n hysgolion Sul ni, ac er i ni fod ar wahân am gyfnod, mae neges yr Iesu yn aros yr un. Sut fyddech chi’n hoffi sôn wrth bobl am eich ysgol Sul chi ac am neges Iesu Grist?

Anfoner eich cynnyrch digidol at rhodri@annibynwyr.cymru erbyn dydd Llun, 5 Mehefin 2023.

Caiff cyflwyniad o’r holl gyfraniadau ei ddangos yn ystod ein Cyfarfodydd Blynyddol yn Wrecsam ym mis Mehefin.

Os am fwy o fanylion, cysylltwch â Thŷ John Penri: 01792 795888 neu undeb@annibynwyr.cymru

Yr Adran Gydenwadol

CHWEFROR 9 2023 RHIF 102

# Gŵyl Llanw yn dychwelyd i Langrannog, 10–13 Ebrill







Braint imi yw cael ysgrifennu gair fel hyn i dynnu sylw at Ŵyl Llanw sydd i'w chynnal eto eleni, y tro hwn yng Ngwersyll yr Urdd yn Llangrannog. Dyma leoliad y ddwy ŵyl gyntaf y bu inni eu cynnal dros 12 mlynedd yn ôl, ac y mae pawb, gan gynnwys y rhai fynychodd yr adeg honno, yn gwybod am y buddsoddiad sydd wedi ei wneud i beri bod y safle yn arbennig, ac yn cynnig ei hun fel lleoliad ardderchog.

Eleni, bydd yr ŵyl yn dechrau gyda chinio ddydd Llun ac yn parhau tan ar ôl cinio ddydd Iau. Bydd yr arlwy ar y byrddau a dros baned yn rhagorol, mae'n siŵr, fel y bydd cael elwa o holl weithgareddau antur y Ganolfan, yn arbennig i'r plant. Ond rydym hefyd yn awyddus i sicrhau arlwy ysbrydol cyfoethog.

Mi fydd yna oedfaon cyhoeddus am 10 y bore a 7 yr hwyr, ac wrth gwrs, mae croeso i unrhyw un daro i mewn i'r rhain. Bore Mawrth bydd yna oedfa deulu, oedfa dan arweiniad y Parch. Simeon Baker fore Mercher, ac oedfa dan ofal y Parch. Nan Powell-Davies fore Iau. Bydd oedfaon nos Lun, nos Fawrth a nos Fercher dan arweiniad y Parch. Stuart Bell. Un o nodweddion oedfaon Llanw yw'r addoliad, a bydd y grŵp Adlais yn arwain bob nos, ac amrywiaeth o grwpiau yn gwneud hynny bob bore. Bydd hefyd raglen lawn o weithgarwch plant ac ieuenctid.


Yn dilyn oedfaon y bore, ac i'r rhai sydd am osgoi llethr sgio Llangrannog yn y prynhawn, bydd yna ddarpariaeth eang o seminarau, darlith ac astudiaeth Feiblaidd. Bydd y rhaglen lawn yn ymddangos ar ein gwefan gyda hyn.

Oherwydd gofynion diogelu yn ogystal â gofynion Llangrannog, bydd angen cofrestru i fynychu os ydych yn dod am y diwrnod neu i'r ŵyl gyfan. Bydd hyn yn ofynnol i sicrhau'r gwaith plant ac ieuenctid a hefyd i sicrhau bod Llangrannog yn gwybod pwy sy'n dod am fwyd. Mae'r cwbl yn rhwydd iawn, a medrwch gofrestru drwy ymweld â gwefan Llanw – www.llanw.org – a mynd at dudalen Gŵyl 2023. Nid oes angen cofrestru i fynychu oedfa'r bore ac oedfa'r hwyr yn unig.

Wrth edrych ymlaen at ddathlu'r atgyfodiad eto fyth, gweddïwch gyda ni y bydd hon yn gynhadledd fydd yn gweld Duw yn bywhau ei waith eto, yn annog a herio, ac yn meithrin cymdeithas ac undod ymhlith pobl Dduw.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ŵyl, am y llety neu unrhyw beth arall, anfonwch e-bost at: ymholiadau@llanw.org.


*Meirion Morris (Cadeirydd)*











# Tystiolaeth yr Eglwysi yn yr Eisteddfodau a’r Sioe

## Eisteddfod yr Urdd, Sir Gaerfyrddin, 29 Mai–3 Mehefin 2023: Pabell yr Eglwysi ac Ysgolion Sul

**Cynhelir cyfarfod o dan nawdd Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru a’r Cyngor Ysgolion Sul am 7.00y.h. nos Lun, 6 Mawrth, yng Nghapel Providence, Llangadog**, i drafod presenoldeb a chenhadaeth yr eglwysi ar faes Eisteddfod yr Urdd yn Llanymddyfri eleni.

Edrychwn ymlaen at ddechrau cynllunio eto ar gyfer yr ŵyl, a gynhelir rhwng 29 Mai a 3 Mehefin ar gyrion tref Llanymddyfri, ac yn ôl yr arfer bydd gan yr enwadau stondin/ uned yno, ynghyd ag uned arall gan Gymorth Cristnogol. Fe wahoddir eglwysi ac ysgolion Sul lleol yn Sir Gaerfyrddin i gyfarfod er mwyn trafod syniadau/ thema, a pha weithgarwch lleol y gellir ei gynnwys o fewn y babell. Bydd angen gwirfoddolwyr hefyd ar y stondin i groesawu a chynnal gweithgareddau, yn ogystal â help i ddarparu paned.

Byddem yn gwerthfawrogi petai modd i chi rannu’r neges hon mor eang â phosib â’ch cysylltiadau lleol, os gwelwch yn dda. Byddai’n dda medru cynnwys cynifer o arddangosfeydd o waith ysgolion Sul lleol â phosib o fewn y stondin. Croeso cynnes i bawb i’r cyfarfod hwn yn Llangadog.

Am fanylion pellach, cysylltwch ag Aled Davies: 07894580192 neu aled@ysgolsul.com.

*Aled Davies*
*Swyddog Digwyddiadau*
*Cenedlaethol Cytûn*

## Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd, Boduan, ger Pwllheli, 5–12 Awst 2023: Pabell yr Eglwysi

**Cynhelir cyfarfod o dan nawdd Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru am 7.00y.h. nos Fawrth, 7 Mawrth, yn festri capel Penlan yng nghanol tref Pwllheli**, i drafod tystiolaeth a chenhadaeth yr eglwysi dros gyfnod wythnos yr Eisteddfod eleni.

Bydd yn braf dechrau cynllunio eto ar gyfer yr ŵyl, wrth i ni baratoi i groesawu ymwelwyr i’r stondin. Cynhelir yr Eisteddfod ym Moduan, rhwng Pwllheli a Nefyn, a hynny rhwng 5 a 12 Awst, ac yn ôl yr arfer bydd gan yr enwadau stondin/ uned helaeth yno i groesawu pobl o bob oed.

Fe wahoddir cynrychiolwyr o eglwysi o fewn y sir i gyfarfod er mwyn trafod syniadau/ thema, a pha weithgarwch lleol y gellir ei gynnwys o fewn y babell. Bydd angen gwirfoddolwyr hefyd ar y stondin i groesawu a chynnal gweithgareddau, yn ogystal â rota helaeth o bobl i fod yn gyfrifol am y te a’r gegin. Byddwn hefyd yn trafod trefniadau’r oedfa ar fore Sul agoriadol yr Eisteddfod.

Byddem yn gwerthfawrogi petai modd i chi rannu’r neges hon mor eang â phosib â’ch cysylltiadau lleol, os gwelwch yn dda. Croeso cynnes i bawb i’r cyfarfod hwn ym Mhwllheli. Am fanylion pellach, cysylltwch ag Aled Davies: 07894580192 neu aled@ysgolsul.com.

*Aled Davies*
*Swyddog Digwyddiadau*
*Cenedlaethol Cytûn*

## Sioe Frenhinol Cymru, Llanelwedd, 24–7 Gorffennaf 2023: Pabell yr Eglwysi




**Cynhelir cyfarfod o dan nawdd Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru am 1 o’r gloch bnawn Llun, 6 Mawrth 2023, yng Nghanolfan y CCRW ar faes y Sioe**, i drafod tystiolaeth a chenhadaeth yr eglwysi dros gyfnod wythnos y Sioe eleni. Bydd yn braf dechrau cynllunio eto ar gyfer y Sioe, wrth i ni baratoi i groesawu ymwelwyr i’r stondin.

Cynhelir y Sioe yn ôl yr arfer yn Llanelwedd ar gyrion Llanfair-ym-Muallt rhwng 24 a 27 Gorffennaf, a bydd gan yr enwadau stondin/ uned yno i groesawu pobl o bob oed.

Fe wahoddir cynrychiolwyr o’r sir a phawb sydd â diddordeb mewn tystiolaeth amaethyddol fel caplaniaid i gyfarfod er mwyn trafod syniadau/ thema, a pha weithgarwch lleol y gellir ei gynnwys o fewn y babell.

Bydd angen gwirfoddolwyr ar y stondin i groesawu a chynnal gweithgareddau yn ogystal â rota helaeth o bobl i fod yn gyfrifol am y te a’r gegin. Byddem yn gwerthfawrogi petai modd i chi rannu’r neges hon mor eang â phosib â’ch cysylltiadau lleol, os gwelwch yn dda.

Croeso cynnes i bawb i’r cyfarfod hwn yn Llanelwedd. Darperir te a choffi – dewch â’ch cinio gyda chi a chawn drafod dros amser cinio dydd Llun.

Am fanylion pellach, cysylltwch ag Aled Davies: 07894580192 neu aled@ysgolsul.com.

*Aled Davies*
*Swyddog Digwyddiadau*
*Cenedlaethol Cytûn*

# Caethwasiaeth fodern, masnachu a chamfanteisio ar bobl: safbwynt Cymreig gan Ali Ussery



Llun trwy garedigrwydd Hafan o Oleuni

Mae caethwasiaeth fodern yn drosedd ddifrifol ac yn groes i hawliau dynol. Mae'n cynnwys masnachu pobl, pan fydd rhywun yn cael ei gipio a'i ddal yn erbyn ei ewyllys, ei recriwtio a'i orfodi i weithio neu i gyflawni trosedd, cymryd rhan mewn gwasanaethau rhywiol, neu gaethwasiaeth yn y gweithle neu gaethwasanaeth domestig.

Mae dros 50 miliwn o bobl ledled y byd yr ystyrir eu bod yn gaeth (Sefydliad Llafur Rhyngwladol), ond nid problem sy'n bodoli mewn mannau pellennig yn unig yw hon, oherwydd yn y Deyrnas Unedig yn 2021 cofnodwyd yn swyddogol fod 12,727 o ddioddefwyr posibl (Swyddfa Gartref), tra mae llawer mwy wedi llithro drwy'r system. Nid yw ffigurau diwedd blwyddyn 2022 wedi'u cyhoeddi eto, ond disgwylir y bydd i'r nifer godi gan mai 12,530 o atgyfeiriadau oedd y cyfanswm ar gyfer tri chwarter cyntaf y flwyddyn. Mae'r data'n cynnwys cam-drin yn erbyn gwladolion y Deyrnas Unedig a thramor, gyda'r rhan fwyaf o'r achosion mewn oedolion yn ymwneud ag 'ecsbloetio llafur', sy'n cynnwys gwaith mewn ffatrïoedd, lletygarwch, twristiaeth, y system gofalu, gwasanaethau fel glanhau a golchi ceir ac ati. Yn achos plant y mae'r gyfran uchaf yn enghreifftiau o 'gamfanteisio troseddol' sy'n ymwneud yn bennaf â chludo a gwerthu cyffuriau drwy'r hyn a adwaenir fel 'llinellau sirol'.

Gwelir realiti trasig caethwasiaeth fodern yn gynyddol yn ein cymunedau heddiw. Mae Grŵp Arwain Atal Caethwasiaeth Cymru, a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru, yn dod ag asiantaethau statudol a rhai'r trydydd sector ynghyd. Ar hyn o bryd, mae'r fforwm hwn yn datblygu strategaeth newydd a fydd yn cynnwys cydweithio rhwng pedwar gweithgor: 'Hyfforddiant ac Ymwybyddiaeth', 'Atal', 'Grŵp Dioddefwyr a Goroeswyr', a 'Grŵp Cymru Foesegol a Rhyngwladol'. Cynrychiolir eglwysi ar y Fforwm gan Ali Ussery, sy'n adrodd yn ôl trwy Cytûn.

Mae hi'n eithriadol o bwysig bod cymunedau eglwysig a phobl o ffydd yn ymwneud â'r mater hwn fel un o'r troseddau mwyaf difrifol yn erbyn dynoliaeth yn ein cyfnod modern. Nid yw cydnabod fod y gamdriniaeth hon yn digwydd yn ei holl ffyrdd cymhleth, a phenderfynu na allwn weithredu i wneud gwahaniaeth, yn dderbyniol. Fel credinwyr mewn Duw cariadus a thosturiol, sôn yr ydym am fodau dynol sydd wedi eu llunio ar Ei lun a'i ddelw Ef, ac mae gan bawb yr hawl i fyw bywyd rhydd. Yr her yw sut i symud ymlaen. Mae cymaint o'r drafodaeth swyddogol yn ymwneud â sylwi ar arwyddion camfanteisio, sut i adrodd am bryderon, cefnogi dioddefwyr a goroeswyr, ac yna dod â'r rhai sy'n cyflawni'r troseddau o flaen eu gwell. Os ydym o ddifrif, mae'n rhaid inni edrych ar wraidd y broblem a gweithio'n galetach ar atal, gweddïo, eiriol a newid y cwmpawd moesol fel bod cam-drin yn cael ei atal cyn iddo ddigwydd.

Mae yna lawer o elusennau sydd wedi bod yn gweithio i fynd i'r afael â chamfanteisio dros y degawd diwethaf a mwy ledled y Deyrnas Unedig. Mae Hafan o Oleuni yn fudiad sy'n gweithio'n agos yng ngogledd Cymru gyda'r Eglwys yng Nghymru a Rhwydwaith Rhyddid Ewropeaidd Cynghrair Efengylaidd Ewrop (www.havenoflight.co.uk). Am wybodaeth, cysylltwch ag info@havenoflight.uk.

*(O Fwletin Polisi Cytûn, Chwefror/ Mawrth '23)*

# Cytûn yn adrodd ar eu gweithgaredd

Cytûn
Eglwysi Ynghyd yng Nghymru
Churches Together in Wales

Gellir dod o hyd i Fwletin Polisi cyfredol Cytûn o ddilyn y ddolen hon ar y we: Bwletin Polisi Chwef/Mawrth 2023 – Eglwysi Ynghyd yng Nghymru | Churches Together in Wales (cytun.co.uk)

Yn ogystal â'r erthygl uchod am gysylltiadau Cymreig caethwasiaeth fodern, fe geir llawer o ddeunydd diddorol i bori ynddo yn y rhifyn cyfredol o Fwletin Polisi Cytûn. Adroddwyd eisoes yn *Cenn@d* a'r Adran Gydenwadol yn *Y Tyst* am gymorth gyda biliau ynni y gaeaf hwn, yn ogystal â sefyllfa'r cwmni Masnach Deg Traidcraft. Ceir rhagor o wybodaeth am sut i gael gafael ar y nwyddau Masnach Deg y byddai Traidcraft yn arfer eu cyflenwi ac anogaeth i gefnogi'r mudiad Cymru Masnach Deg ac i gymryd rhan yng ngweithgareddau **Pythefnos Masnach Deg 2023** (27 Chwefror–12 Mawrth).

Wrth adrodd am **Gynghrair Cymhwysiant Digidol Cymru** a rhan yr eglwysi ynddo, mae Aled Davies yn ein hannog nid yn unig i greu gofodau cynnes i bobl sydd eu hangen, ond llefydd lle gall pobl yn ein cymunedau gael help i gael mynediad i wasanaethau ar-lein.

Roeddem yn falch iawn o'r newydd fod y Parch. Gethin Rhys, Swyddog Polisi Cytûn, ymhlith 100 o Ysgogwyr Newid yng Nghymru a gafodd eu cydnabod am eu gwaith yn ysbrydoli defnyddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Meddai Gethin, "Dydw i ddim fel arfer yn un am anrhydeddau, ond rwy'n mawr werthfawrogi'r gydnabyddiaeth hon o werth llais ffydd yn y sgwâr cyhoeddus yng Nghymru."




### Coffáu cyhoeddus yng Nghymru

Yn dilyn dadleuon diweddar am gerfluniau a chofebau, gan gynnwys rhai mewn eglwysi, enwau strydoedd ac ati, mae Llywodraeth Cymru (drwy Cadw) wedi penderfynu datblygu canllawiau ar goffáu cyhoeddus yng Nghymru. Bydd ymgynghoriad cyhoeddus yn cael ei gynnal tan 21 Chwefror. Mae Cadw a Cytûn yn awyddus i eglwysi a chymunedau ffydd eraill ymateb. Bydd Cytûn yn croesawu cyfraniadau i'w hymateb hwythau ar ein rhan erbyn 14 Chwefror (e-bost: gethin@cytun.cymru).

Os hoffai rhywun fod ar y rhestr i dderbyn y bwletin deufisol hwn gan Cytûn, anfonwch ebost, eto at gethin@cytun.cymru, yn holi am hynny.

# Cymorth biliau ynni


Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi eu cynllun ar gyfer cynorthwyo cwsmeriaid annomestig – gan gynnwys addoldai – gyda'u biliau ynni ar gyfer Ebrill 2023 – Mawrth 2024. Gellir gweld y cyhoeddiad yma:

www.gov.uk/guidance/energy-bills-discount-scheme

I'r rhan fwyaf o gwsmeriaid fe drefnir – yn awtomatig trwy eu biliau ynni – gostyngiad yn y pris fesul uned a godir. Dangosir manylion y gostyngiad trwy'r ddolen uchod, ac fe ddylai cyflenwyr ynni yrru cadarnhad i bob cwsmer cyn diwedd mis Mawrth 2023. Mae yna rai amodau o ran y math o gytundeb sydd gan y cwsmer â'r cyflenwr. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd hyn yn golygu y bydd cost ynni fesul uned yn codi o Ebrill 2023 o'i gymharu â'r taliadau presennol, ond bydd o hyd yn llai na phris y farchnad.

Bydd nifer fach o addoldai yn gymwys hefyd ar gyfer gostyngiad ychwanegol trwy gynllun ETTI (Energy and Trade Intensive Industries), os ydynt yn safle neu'n adeilad hanesyddol neu yn atyniad i ymwelwyr; neu yn cynnal llyfrgell, archifdy neu amgueddfa. Bydd angen gwneud cais am y cymorth ychwanegol hwn, ac nid yw'r dull ymgeisio wedi ei gyhoeddi eto.

Yn anffodus, nid oes gan Cytûn yr adnoddau i gynghori addoldai unigol ar eu sefyllfa – dylid cysylltu â'r cyflenwr ynni – ond rydym yn falch fod yr achos a roesom gerbron Llywodraeth y DU, gyda chymorth gwybodaeth gan nifer o eglwysi lleol, wedi dwyn rhywfaint o ffrwyth.



# GAIR AM AIR

## gan Owain Llŷr Evans

Perthyn i bob iaith geiriau na ellid yn llawn a llwyr eu cyfieithu i iaith arall. Mae'r gyfres hon o fyfyrdodau yn ymdrin ag ambell un o'r geiriau diddorol rheini. Daw testun ein sylw heddiw o'r Norwyeg: *forelsket*. Yn fras, *forelsket* yw'r ymdeimlad annisgrifiadwy hwnnw a ddaw o wybod eich bod ar fin syrthio mewn cariad.

Mae Mrs Williams drws-nesa-ond-dau wrth ei bodd yn darllen llyfrau Mills and Boon. Onid, yw'r rhan fwyaf o bobl yn hoffi stori garu dda? Onid stori garu yw hanfod holl ymwneud Duw â phobl?

Mae cariad Duw yn newid pobl. Os mai nyni yw bys y cwmpawd, cariad yw'r gogledd magnetig. Nid profiad dymunol mo'r newid hwn, ond mae'r fendith a gawn o'r herwydd yn ganwaith mwy, yn filwaith gwaith amgenach na gorau'r byd a'i bethau: y newid hwn sydd ddeniadol i eraill. Mae gweld ein *forelsket* yn peri chwilfrydedd am beth fu achos y newid hwn ynom.

FORELSKET

**Trawsnewidiad**

Ym mhrifysgol Bangor mi ddois ar draws Siôn. Trwy gydol y blynyddoedd hapus rheini – fel y gweddill ohonom – bu Siôn yn ddedwydd o anniben ac yn fodlon o flêr. Wedi graddio bu Siôn, tra bod y gweddill ohonom yn ymdacluso, bu Siôn yn ddigyfnewid yn ei annibendod beunyddiol. Dair blynedd yn ddiweddarach, aeth Siôn i Ganada i weithio am gyfnod. Daeth yn ôl i Gymru wedi blwyddyn neu ddwy, a galw heibio, a minnau'n byw a gweinidogaethu ar y pryd yn Rhos a Wrecsam. Dyna chi wahaniaeth! Dillad smart, glân. Gwallt byr a thaclus. Beth oedd wedi peri'r fath newid ynddo? Nid beth yn gymaint, ond pwy: Emily. Er nad oedd merched yn ddiarth i Siôn, roedd Emily'n wahanol. Roedd Emily yn ei garu. Roedd Siôn yn gwybod bod Emily yn ei garu. Dyna oedd wrth waelod y newid yn Siôn.

Wrth wybod fod rhywun wirioneddol yn ein caru – wrth dderbyn y cariad hwnnw – mae newid yn anorfod, a'r newid yn amlwg. Mae hyn yn wir hefyd am ein perthynas â Duw. O ildio i'r Cariad hwn, bydd y newid ynom yn amlwg i bawb gael gweld – mae cariad Duw yn gadael ei farc arnom: *forelsket*. Yn anad dim byd arall rhannu ein *forelsket* – rhannu gwefr ein hymateb i gariad gwefreiddiol Duw yw gorau arf genhadol, a phennaf genhadaeth y Cristion.

# Dilyn Llinyn

## Mynwent Abney Park 3 – Isaac Watts



Wrth chwilio am fedd Betsi Cadwaladr, deuthum ar draws gerflun mawr o'r emynydd Isaac Watts. Awdur degau o emynau Saesneg yn cynnwys,

> When I survey the wondrous cross
> on which the Prince of glory died,
> my richest gain I count but loss,
> and pour contempt on all my pride.

Meddyliais fod hynny'n beth rhyfedd, oherwydd fe wyddwn fod ei weddillion wedi eu claddu ym mynwent enwog Bone Hill, Old School, Llundain. Pam ar wyneb y ddaear fod cofeb iddo ym mynwent Abney Park? Sylwais ar y map a roddwyd i mi wrth y fynedfa, fod yna leoliad yn y fynwent yn dwyn yr enw 'Dr Watts' Mound'. Euthum draw yn ddiymdroi i gyfeiriad y bonc yn llawn cywreinrwydd. Wrth ddynesu clywais arogl chwerw, mwg drwg, sydd gwaetha'r modd wedi dod yn brofiad cyffredin erbyn hyn. Yn eistedd ar bonc Isaac Watts roedd tri pherson, dwy wraig a dyn yn ysmygu reu (*pot*) yn ddi-hid. Ni throesant flewyn wrth i mi ddynesu atynt.

*parhad ar y dudalen gefn*

## Barn Annibynnol

# DROS FY YSGWYDD CHWALFA

Mae'r adeilad eglwysig o'n cwmpas yn syrthio yn ddarnau, a hynny ar raddfa arswydus. Nid crebachu wnaeth achos Iesu Grist yng Nghymru dros y trigain mlynedd diwethaf ond chwalu.

Cefais fy nal yn ei ganol. Yn ôl pob golwg bûm yn fethiant.

Fedra i ddim anghofio sut yr oedd pethau. Pan ordeiniwyd fi yn y Rhondda yn 60au'r ganrif ddiwethaf roedd 27 o eglwysi'r Undeb yno, a saith gweinidog. Gweinidogion da. Ni allaf ond eu canmol. Buont mor garedig. Ac yno y buont drwy eu gweinidogaeth, yn llafurio yng ngwres y dydd, a'r sefyllfa'n dirywio bob blwyddyn er gwaethaf eu gwaith cydwybodol. Mae pedair eglwys ddewr yn dal i ddwyn eu tystiolaeth. Mae hi gymaint yn haws dal ati pan fo'r llanw o'ch plaid!



### Methiant

Mae'r peth hwn, sydd mor bwysig, dan straen aruthrol. A hynny mor boenus. Mae argyfwng yr eglwysi yn drychineb i'r ffyddloniaid. Ond mae pawb ar eu colled. Pan fo crefydd yn colli gafael nid gwacter ddaw yn ei le ond meistri drwg materoliaeth a hunanoldeb.

Sut ydw i yn delio â'm methiant?

Gwell cydnabod yn syth bod pwerau aruthrol yn ein herbyn, grymoedd sydd y tu hwnt i'n cyrraedd ni, bobl ffydd. Nid yng Nghymru'n unig mae hynny'n digwydd; mae'r gwyntoedd oerion yn chwythu drwy'r cyfandir i gyd. Ond rhaid i minnau ysgwyddo peth o'r bai. Er i mi fod wrthi'n gydwybodol ar y pryd , gwelaf bellach y gallwn fod wedi gwneud sawl peth yn well. Bûm yn rhy glwm wrth yr hen batrymau. Mae angen maddeuant am fy niffyg menter arnaf. Do, ymdrechais i roi gweinidogaeth yr holl saint ar waith, ond ddim hanner digon. A'r cwestiwn sy'n cnoi – ai gwrthod y trysor ei hun, gwrthod Crist, y mae pobl, neu wrthod ein llestr ni?

Rhaid i mi edifarhau o waelod calon. Heb drugaredd, mae hi ar ben arnaf.

### Ffyddlondeb

Edifarhau, ie, nid yn gymaint am fethu ag am ddiffyg ffyddlondeb. Nid llwyddiant yw'r nod. Chwilio am ffyddlondeb mae Duw. Tasg yr heuwr yw hau, yn ddyfal a gofalus. Yr Arglwydd sy'n rhoi tyfiant.

'Nid bod mudiad yn llwyddo sy'n dangos ei hawl i gefnogaeth,' meddai Saunders Lewis. 'Cymdeithas yr Iaith, fe'i cefnogwn petai gennyf sicrwydd y methai yn ei holl amcanion cyn pen pum mlynedd – yn syml am mai hynny sy'n iawn.'

'Tyrd, dilyn fi,' yw galwad Iesu. Mae'r llwybr hwnnw'n arwain i Golgotha. Dyw Iesu ddim yn ein camarwain. 'Gorthrymder a gewch,' yw'r addewid. Y tu hwnt i'r tywyllwch y mae'r goleuni; y byd newydd, y nef newydd a'r ddaear newydd.


### Difaru?

Pe cawn ddechrau o'r dechrau, a chael y fraint syfrdanol o'm galw i'r weinidogaeth Gristnogol, ni phetruswn eiliad cyn cofleidio'r cyfle, a phe bai'n bosib, mynd i'r un llefydd eto. Peth aruthrol yw bod eglwys yn eich galw yn weinidog. 'Dewch i fyw yn ein plith. Wnawn ni ofalu amdanoch. Cewch fod yn rhydd i'n bugeilio ni a'r ardal.' Diolch â'm holl galon am y fraint. Allwn i wneud dim byd gwell â'm bywyd na'i gysegru i ddweud am Iesu, a bod yn was iddo ac yn was i bobl fy ngofal. Does dim pris ar y fraint o gael bod yn agos at bobl yn amgylchiadau mawr eu bywyd. A chofiaf hefyd ym mhob un o'm heglwysi roedd pobl well na mi, a hwythau yn gweinidogaethu i minnau.

Gallaf feddiannu geiriau'r hen weinidog Americanaidd, Thomas Wingfield, wrth iddo yntau edrych yn ôl o'r dalar ar ben ei gŵys igam-ogam, 'Pa egnïon bynnag sy gen i, fe wn un peth i sicrwydd, allwn i mo'u defnyddio i ddim byd arall y credwn ei fod yn llwyr werth ei wneud heblaw am ddweud am yr un sy'n wirionedd ac yn fywyd.'

**Dewi M. Hughes**

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)




## DYDD GWEDDI'R BYD 2023 TAIWAN

Cynhelir dydd Gweddi'r Byd ddydd Gwener, 3 Mawrth

Thema: 'Clywais am eich ffydd'

Cyflwyniad pwynt pŵer ar gael yn Gymraeg drwy e-bostio Mary Thomas: rema.thomas@btinternet.com.

Cyflwyniad pwynt pŵer ar gefndir Taiwan, 20 sleid gyda theitlau Cymraeg ynghyd â sgript Cymraeg [Taiwan Presentation Welsh Slides Download with Welsh script] ar gael o'r Swyddfa Ganolog drwy e-bostio office@wwdp.org.uk

Pris y PowerPoint Saesneg yw £2. ond medrwch sicrhau'r lawr lwythiad Cymraeg ond i chi gyfrannu at eich casgliad lleol.

Deunydd ar gyfer plant i'w cael yn rhad ac am ddim i'w lawr lwytho oddi ar y wefan: www.wwdp.org.uk

**Beti-Wyn James, Carys Ann**
*Swyddogion Cyhoeddusrwydd*

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* aluntudur@btinternet.com

*Golygyddion*

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

**Dalier Sylw!**
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# Dilyn Llinyn – parhad

Gofynnais iddynt a oedd unrhyw wybodaeth wrth law am Isaac Watts. 'Isaac who?,' meddent yn lled ymwybodol. Cefais gyfle i ddweud wrthynt ei fod yn emynydd o fri ac yn Gristion o argyhoeddiad oedd wedi sgwennu nifer fawr o emynau Saesneg. Dangoswyd ychydig o ddiddordeb ganddynt cyn iddynt suddo yn ôl i lesmair y chwyn.

## Dr Watts' Mound

Yna gwelais ar ymyl y bonc hysbysfwrdd bychan a osodwyd yno, yn dweud 'Dr Watts' Mound'. Roedd hwn wedi ei guddio o dan ychydig eiddew ac wedi dirywio yn arw yn wyneb y tywydd a'r diffyg gofal. Cefais gyfle bach i ddiolch i'r Arglwydd am bobl fel Watts oedd wedi neilltuo eu doniau i glodfori ein Gwaredwr. Sylweddolais hefyd mai prif angen y drindod ar y bonc oedd nid cyffuriau llesmeiriol ond Iesu a'i iachawdwriaeth. Ond roedd y cwestiwn ddal heb ei ateb sef, beth oedd y cysylltiad rhwng Isaac Watts â mynwent Abney Park? Mae'r hanes yn ddiddorol.

## Stoke Newington

Adeiladwyd rhan o fynwent Abney Park ar dir Abney House, cartref Syr Thomas Abney. Aeth Isaac Watts i Academi Anghydffurfiol Stoke Newington. Yn y cyfnod hwn nid oedd Anghydffurfwyr yn cael mynychu prifysgolion fel Rhydychen a Chaergrawnt ac felly sefydlwyd nifer o academïau Anghydffurfiol. Wedi cyfnod byr i ffwrdd yn Llundain dychwelodd yn ôl i Stoke lle y treuliodd weddill ei oes. Ymgartrefodd i ddechrau yng nghartref y teulu Hartopp lle y gweithiodd fel tiwtor ac yna yn ddiweddarach yn Abney House er mwyn bod yn gwmni i Lady Mary, gweddw'r diweddar Sir Thomas, a'i merch. Arhosodd yno am 36 o flynyddoedd.



## Awdur

Roedd Watts yn hoff iawn o gerdded yng ngerddi'r plasty lle roedd yn cael ysbrydoliaeth i ysgrifennu emynau a llyfrau. Roedd yn awdur toreithiog a ysgrifennodd lyfrau ar amrywiol bynciau. Un o'i lyfrau enwocaf oedd ei lyfr ar Resymeg (*Logic*) sef, *The Right Use of Reason in the Enquiry After Truth With a Variety of Rules to Guard Against Error in the Affairs of Religion and Human Life, as well as in the Sciences* (1724). Defnyddiwyd y gyfrol hon fel llawlyfr ym mhrifysgolion Rhydychen, Caergrawnt, Harvard a Yale.

Eisteddai Watts weithiau ar y bonc yn y gerddi am oriau i fyfyrio a meddwl. A dyma pam fod y bryncyn wedi ei enwi ar ei ôl a cherflun mawreddog ohono wedi ei osod yng nghanol y fynwent.

Ond nid dyna ddiwedd hanes fy ymweliad â mynwent Abney Park oherwydd y mae Cristnogion enwog eraill wedi eu claddu yno ac yn eu plith Gymry. Cawn sôn am ddau ohonynt hwy y tro nesaf.

